


# Caerdydd sy'n Dda i Blant

## Adroddiad Blynyddol

## 2023/24

Child Friendly CARDIFF CAERDYDD Sy'n Dda i Blant

CARDIFF CAERDYDD

2023–2026 DINAS SY'N DDA I BLANT unicef UNITED KINGDOM

# Cynnwys


CYFLWYNIAD 2
LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD 3
BETH YW HAWLIAU PLANT? 4
MENTER DINASOEDD SY'N DDA I BLANT 4
DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN 5
1. ADDYSG HAWLIAU PLANT
- Datblygu'r Gweithlu 6
- Gwobr Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau 8

2. LLE - CYNLLUNIO A DYLUNIO DINESIG 10
3. CYFRANOGIAD A CHYLCH ADBORTH 12
4. CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS
- Mynd I'r Afael Â Materion Sy'n Ymwneud Â Chydraddoldeb Rhywedd 14
- Mynd I'r Afael Ag Anghymesuredd Yn Y System Cyfiawnder Ieuenctid 16
- Mynd I'r Afael Â Gwahaniaethu: Ymddygiad A Gwaharddiadau Mewn Ysgolion 17
- Datblygu Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus Sy'n Deg I Blant 19

DEILLIANNAU AROLYGU ALLWEDDOL 20
CYSYLLTIADAU NEWYDD 21
CRYNODEB 22
Y CAMAU NESAF 22
RHESTR TERMAU 23

Mae Caerdydd eisoes yn lle gwych i lawer o fabanod, plant a phobl ifanc gael eu magu, gyda rhai o'r canlyniadau addysg gorau yng Nghymru a chyfoeth o gyfleoedd a gynigir gan y Cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pawb yn cael yr un profiad. Mae anghydraddoldeb yn dal i effeithio ar ormod o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, heriau sydd wedi cael eu gwaethygu gan effaith barhaol pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw parhaus.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gau'r bylchau hyn mewn deilliannau ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, teuluoedd a phartneriaid i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phresenoldeb mewn ysgolion a lles disgyblion, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i ffynnu.

Ar gyfer plant a phobl ifanc ein dinas sy'n fwyaf agored i niwed, ynghyd â'u teuluoedd, byddwn yn parhau i gynnig y gofal a'r cymorth o'r ansawdd uchaf. Mae hyn yn golygu darparu'r cymorth cywir cyn gynted â phosibl, gan alluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag y bo'n ddiogel gwneud hynny. Mae ein dull gweithredu yn cynnwys cymorth cymunedol ac amrywiaeth o ddewisiadau gofal, gyda phob un wedi'i ategu gan ymrwymiad i arfer gorau a gweithlu sefydlog a medrus.

Ein gweledigaeth yw ymgorffori hawliau plant i wead Caerdydd, fel bod pawb yn deall, yn parchu ac yn hyrwyddo'r hawliau hyn yn eu bywydau pob dydd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc lais wrth lunio dyfodol ein dinas a'i fod yn cymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym am i Gaerdydd fod yn fan lle mae pob plentyn, ni waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau, yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gynnwys a'i rymuso i gyrraedd ei botensial llawn.

Wrth i'n dinas dyfu, rydym wedi ymrwymo i ddylunio pob gofod a datblygiad gan roi ystyriaeth i blant. Ein nod yw creu amgylcheddau diogel a chroesawgar sy'n cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer chwarae, dysgu a thyfu. Gyda'n gilydd, gallwn wneud Caerdydd yn lle gwell fyth i bob plentyn a pherson ifanc ffynnu.

Llofnodwyd gan: Y Cynghorydd Merry a Chadeirydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd

# CYFLWYNIAD

Ar ôl pum mlynedd o waith caled i sicrhau bod hawliau plant yn rhan o bopeth y mae'r cyngor lleol a gwasanaethau eraill yn ei wneud, cafodd Caerdydd ei henwi'n swyddogol yn Ddinas sy'n Dda i Blant gyntaf UNICEF yn y DU ym mis Tachwedd 2023.

Ar ddiwedd 2023, cyhoeddwyd cynllun cynaliadwyedd Caerdydd sy'n Dda i Blant (Caerdydd DdB) 3 blynedd i barhau â'r gwaith i wneud Caerdydd yn lle hyd yn oed yn well i blant a phobl Ifanc (plant).
Mae'r cynllun hwn yn helpu babanod, plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio eu hawliau. Mae'n sicrhau y gallant fod yn rhan o benderfyniadau pwysig ac yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, a bod oedolion yn gwneud gwaith gwell o barchu a diogelu eu hawliau.

## Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

### Addysg Hawliau Plant

Rydym yn addysgu pawb yng Nghaerdydd am hawliau plant fel eu bod yn eu deall a'u parchu.

### Cyfranogiad

Rydym yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud am sut mae Caerdydd yn cael ei rhedeg a sut mae'r ddinas yn datblygu..

### Lle

Rydym yn dylunio adeiladau a gofodau Caerdydd gan roi ystyriaeth i blant, fel eu bod yn ddiogel, yn llawn hwyl ac yn deg.

### Yn Gyfartal ac yn Cael eu Cynnwys

Rydym eisiau i bob plentyn, ni waeth pwy ydyw, deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys yng Nghaerdydd.

## Rhestr termau

**Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi tanlinellu rhai o'r geiriau anodd ac wedi cynnwys esboniadau ar y diwedd ar dudalen 23**

## Acronymau Cyffredin

**Weithiau rydyn ni'n byrhau ymadroddion a ddefnyddir yn aml i'r llythrennau cyntaf yn unig (acronymau). Dyma rai acronymau cyffredin rydyn ni'n eu defnyddio yn y ddogfen hon:**

**CAERDYDD DdB** – Caerdydd sy'n Dda i Blant
**CIC** – Cyngor Ieuenctid Caerdydd

# LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

## Llywodraethu

Mae rhaglen CAERDYDD DdB yn cael ei goruchwylio gan Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Caerdydd sy'n Dda i Blant. Mae yna hefyd Grwpiau Gweithredol ar gyfer blaenoriaethau Lleoedd ac Yn Gyfartal ac yn Cael eu Cynnwys. Mae'r rhain yn darparu cydlyniad a chymorth ar gyfer y gweithgareddau yn ein cynllun. Mae'r rhaglen yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sy'n cynnwys holl benaethiaid y Gwasanaethau Cyhoeddus megis yr Heddlu, Iechyd, y Gwasanaeth Tân a Chabinet y Cyngor, sef yr uwch wleidyddion, ac Uwch Dîm Rheoli (UDRh) Cyngor Caerdydd.

## Hyrwyddwyr Hawliau Plant

Ymhlith yr arweinwyr allweddol sy'n cefnogi'r rhaglen mae'r Dirprwy Arweinydd y Cynghorydd Sarah Merry, Aelod Cabinet y Cynghorydd Jennifer Burke, y Prif Weithredwr Paul Orders, y Cyfarwyddwr Addysg Mel Godfrey a'r Cyfarwyddwr Priffyrdd, Cynllunio a Thrafnidiaeth Andrew Gregory.

## Atebolrwydd

Mae aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor yn cefnogi plant a phobl ifanc yn rheolaidd i fonitro rhaglen CAERDYDD DdB trwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Plant a Chyngor Ieuenctid Caerdydd.

## Adrodd

Rydym eisiau sicrhau bod y bobl gywir yn deall pa waith sydd wedi cael ei wneud a pha mor dda rydyn ni wedi'i wneud. Rydym ni'n gwneud hyn trwy:

- Ddiweddariadau perfformiad chwarterol i'r Tîm Polisi Corfforaethol a'r Cabinet.
- Cyflwyno Adroddiad CAERDYDD DdB blynyddol i UNICEF UK.



# BETH YW HAWLIAU PLANT?

Rydyn ni eisiau i Gaerdydd fod 'yn lle gwych i gael eich magu'. Rydyn ni eisiau byw mewn dinas gyda phlant a phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle caiff lleisiau, anghenion a hawliau plant a phobl ifanc eu parchu.

Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau dynol cyffredinol ag oedolion a hefyd hawliau penodol sy'n cydnabod eu hanghenion arbennig.  Nid yw plant yn eiddo i'w rhieni nac yn wrthrychau diymadferth sydd angen elusengarwch.  Bodau dynol ydyn nhw gyda'u hawliau eu hunain.


Mae gan blant a phobl ifanc 42 o hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r 42 o hawliau hyn yn rhoi i blant a phobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i dyfu'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.




Mae Hawliau Plant mor bwysig y penderfynodd Cymru eu rhoi wrth wraidd ei chyfreithiau 15 mlynedd yn ôl. Mae'n rhaid i holl weinidogion, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau cenedlaethol mawr Cymru roi sylw i hawliau plant ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud.

# MENTER DINASOEDD SY'N DDA I BLANT

Mae menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF yn cael ei chynnal mewn llawer o wledydd ledled y byd. Y nod yw rhoi cymorth i gymunedau wneud hawliau plant yn rhan annatod o bolisi ac ymarfer sy'n trawsnewid gwasanaethau, gan arwain at ganlyniadau gwell ym mhob agwedd ar fywydau plant a phobl ifanc.



# DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru yn ffordd o weithio gyda phlant ac ar eu cyfer, ar sail CCUHP, i helpu cyrff cyhoeddus i ymgorffori hawliau plant ym mhob rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a'r gwaith a wnânt (mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â 7 egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant Unicef).

Mae 5 Egwyddor Y Ffordd Iawn yn ffordd o weithio gyda phlant sy'n seiliedig ar eu hawliau isod:

**1**

**Ymgorffori Hawliau Plant:**
Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori wrth wneud penderfyniadau, polisïau ac arferion pob dydd.

**2**

**Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu:**
Hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn erbyn gwahaniaethu fel bod gan bob plentyn fynediad cyfartal i'w hawliau.

**3**

**Grymuso Plant:**
Grymuso plant i fynegi eu barn ac ymwneud â materion sy'n effeithio arnynt.

**4**

**Atebolrwydd:**
Dal sefydliadau yn atebol am weithredu hawliau plant a sicrhau tryloywder.

**5**

**Cyfranogiad:**
Sicrhau bod plant yn cael eu clywed a bod eu barn yn sail i wneud penderfyniadau.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, soniwyd am (neu awgrymwyd) 5 egwyddor y Ffordd Gywir, a'u nodi mewn **teip trwm** i ddangos ymrwymiad Cyngor Caerdydd i gynnal y gwerthoedd hyn. Trwy amlygu'r ffyrdd hyn o weithio, mae'r adroddiad hwn yn ceisio dangos ymrwymiad y Cyngor i ymgorffori hawliau plant yn ei brosesau gwneud penderfyniadau a sut rydym yn gweithio.

# 1.1 ADDYSG HAWLIAU PLANT
## Datblygu 'r Gweithlu

**Rydym am i oedolion ledled y ddinas feddu ar wybodaeth dda am hawliau plant a chefnogi plant mewn perthynas â nhw.**

## Dull Gweithredu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm CAERDYDD DdB wedi gwneud cynnydd mawr wrth greu a chyflwyno rhaglen hyfforddi sy'n grymuso oedolion a phobl ifanc o ran hawliau plant a Chyfranogiad. Y prif nod yw sicrhau bod lleisiau plant nid yn unig yn cael eu clywed ond hefyd yn dylanwadu ar y polisïau a'r arferion sy'n effeithio arnynt.

### Cynyddu nifer y staff sy'n gwybod am hawliau plant

Mae sicrhau bod gan bob gweithiwr yn y Cyngor wybodaeth am hawliau plant wedi bod yn flaenoriaeth ac yn her i ni. Mae hyn yn bwysig oherwydd pan fydd oedolion yn teimlo'n hyderus ac yn wybodus am hawliau plant, maent mewn sefyllfa well i **ymgorffori hawliau plant** a **grymuso plant** i fynegi eu hunain.

Fe wnaethon ni sylwi na allai llawer o staff heb fynediad i gyfrifiadur gwblhau'r hyfforddiant ar-lein. I gywiro hyn, fe wnaethom greu sesiwn friffio personol y gall rheolwyr ei chyflwyno i'w timau. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein i gydweddu ag arddulliau ac amserlenni dysgu gwahanol.

Mae'r tîm hyfforddi hefyd yn defnyddio dangosfwrdd cydymffurfio digidol i olrhain pwy sydd heb gwblhau'r hyfforddiant, gan ein helpu i nodi timau sydd angen cymorth ychwanegol.

### Datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddiant Hawliau Plant a Chyfranogiad pwrpasol i wahanol grwpiau

Mae hawliau plant a **Chyfranogiad** yn gallu ymddangos yn wahanol gan ddibynnu ar y sefyllfa. Rydym yn creu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am fabanod, plant a phobl ifanc, megis aelodau etholedig, llywodraethwyr ysgol, rheolwyr, a gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, mae angen gwybodaeth wahanol ar  aelodau etholedig i staff meithrin. Mae pob hyfforddiant yn cynnwys adnoddau arbennig i helpu gweithwyr proffesiynol i ddysgu mwy am hawliau plant:

- Blynyddoedd cynnar - Blynyddoedd Cynnar - Hawliau Plant a Chyfranogiad (padlet.com)
- Aelodau etholedig - Cyflwyniad i Hawliau Plant - Aelodau etholedig (padlet.com)

Rhaid i oedolion fod yn **atebol** i blant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel yr amlinellir yng nghyfraith a safonau Cymru . Mae ein hyfforddiant yn esbonio'r pwysigrwydd i'r sawl sy'n gyfrifol am y ddyletswydd hon roi adborth i blant a phobl ifanc a sut i wneud hynny.

Rydym hefyd yn dysgu y dylai babanod, plant a phobl ifanc gael cymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'n bwysig bod oedolion yn deall y Nodweddion Gwarchodedig o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan sicrhau bod hunaniaeth plentyn yn cael ei pharchu, a hyrwyddo **cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu.**

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru, Mesur Plant a Theuluoedd Cymru (2010), Mesur Plant a Phobl Ifanc Cymru (2011), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

## Datblygu, profi a chyflwyno modiwl hyfforddiant Dull Gweithredu sy'n Seiliedig ar Hawliau Plant

Pan ddechreuon ni weithio i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant, roedden ni'n bwriadu creu sesiwn hyfforddi o'r enw 'Y Ffordd Iawn', ar sail canllaw sy'n helpu oedolion i ymgorffori hawliau plant yng Nghymru trwy fabwysiadu 'Dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant'. Er na wnaethom fodiwl penodol ar ei gyfer, rydym wedi cynnwys ei bum syniad allweddol mewn sesiynau hyfforddi gwahanol. Mae'r sesiynau hyn yn helpu gweithwyr proffesiynol yng Nghaerdydd i ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant yn eu gwaith pob dydd.

## Creu model 'Hyrwyddwyr Hawliau Plant'

Ar y dechrau, gwnaethom feddwl am greu model Hyrwyddwyr Hawliau Plant, lle byddai oedolion dethol ym mhob adran o'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn eiriol dros hawliau plant. Ond ar ôl siarad ag arbenigwyr, fe wnaethon ni sylweddoli efallai na fydd hyn yn gweithio'n llawn. Yn hytrach, fe wnaethom ddatblygu modiwl hyfforddi ar gyfer rheolwyr, gan eu dysgu i eiriol dros hawliau plant yn eu timau a sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn llywio eu harweinyddiaeth a'u penderfyniadau.

I gloi, mae effaith ein hyfforddiant hawliau plant wedi bod yn hynod gadarnhaol, ac edrychwn ymlaen at barhau i addasu ein darpariaeth i ddiwallu anghenion ein dinas.

## Effaith

**Mae 70% o staff cyngor** yn cydymffurfio o ran Hawliau Plant, sy'n uwch na'r effaith a ragfynegwyd gennym ym mlwyddyn un, sef 60%

Cyn yr hyfforddiant, dim ond 52% o'r cyfranogwyr oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn teimlo'n wybodus ac yn hyderus am hawliau plant. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, cododd y ffigur hwn i **97%**

**Rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Gorffennaf 2024 *rydym wedi cyflawni:***

**Plant a Phobl Ifanc Cyfranogiad**
Sesiynau Rhan 1 – 8, 220 o gyfranogwyr,
Sesiynau Rhan 2 – 4, 160 o gyfranogwyr.

**Cyflwyniad i Hawliau Plant**
19 sesiwn, 345 o gyfranogwyr

**Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP),** goruchwylio misol a chynnydd yn ansawdd a nifer yr AEHP a gynhelir ar draws y cyngor.

**Hawliau Plant Pwrpasol ar gyfer Aelodau Etholedig, Llywodraethwyr Ysgol a Gweithwyr Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar**

**Hawliau Plant i Reolwyr**
Mae 2 fodiwl hyfforddi newydd wedi'u creu ac mae cynllun i'w cyflwyno ar waith

# 1.2 ADDYSG HAWLIAU PLANT
## GWOBR YSGOLION SY'N PARCHU HAWLIAU

**Ar draws y ddinas, rydym am i blant feddu ar wybodaeth dda am hawliau plant a chael eu cefnogi'n weithredol i fynnu eu hawliau.**

## Dull Gweithredu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Caerdydd wedi cymryd camau breision wrth ymgorffori hawliau plant trwy Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA) UNICEF.

### Rhedeg y fenter RRSA yng Nghaerdydd gyda llai o gymorth gan UNICEF y DU

Bydd hyfforddi tri Swyddog Cyngor lleol a siaradwr Cymraeg fel aseswyr RRSA, yn lleihau gwaith UNICEF yng Nghaerdydd. Mae hyn yn arbed arian i ni a bydd yn ein helpu i barhau i dalu i bob ysgol redeg y fenter RRSA. Rydym yn falch iawn o ddweud bod dinasoedd eraill yng Nghymru a Lloegr bellach wedi dechrau gwneud yr un peth!

### Rhannu ymarfer a chysylltu ysgolion RRSA

Bob blwyddyn, mae Caerdydd yn cynnal digwyddiad RRSA yn Techniquest gan ddod â channoedd o ddisgyblion o wahanol ysgolion ynghyd i rannu a thyfu fel rhan o fudiad hawliau ledled y ddinas. Nod y digwyddiadau hyn yw hyrwyddo hawliau plant trwy gyflwyniadau a gweithgareddau. Mae'r elfennau hyn a arweinir gan ddisgyblion yn y digwyddiad yn tynnu sylw at ein hymrwymiad i **rymuso** plant a **Chyfranogiad**, gan sicrhau bod pobl ifanc yn chwarae rhan weithredol yn eu haddysg hawliau ac wrth lunio eu cymunedau. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant athrawon yn ystod y digwyddiad, gan roi'r sgiliau iddynt helpu eu hysgolion i wella. I'r ychydig ysgolion nad ydynt eto'n ymwneud â'r RRSA, rydym yn rhoi'r cyfle cyntaf iddynt gael tocynnau fel y gallant ddysgu am fuddion dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant a gweld yr holl waith rhagorol sy'n cael ei wneud.

### Cynyddu ymgysylltiad ysgolion uwchradd drwy gymuned ymarfer

Ein prif amcan wrth redeg cynllun peilot cymuned ymarfer oedd cynyddu nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r RRSA, gan fod ganddynt y nifer mwyaf o ddisgyblion ond y Cyfranogiad isaf. Mae disgyblion ac athrawon ysgolion cynradd wedi dweud wrthym y bydden nhw'n hoffi i fwy o ysgolion uwchradd gymryd rhan.

Ar ôl siarad â'r gymuned a myfyrio ymhellach, penderfynwyd y dylem ddefnyddio dull gweithredu gwahanol. Fe wnaethom gefnogi disgyblion Blwyddyn 6 o Ysgolion sy'n Parchu Hawliau i ysgrifennu llythyrau at eu darpar benaethiaid uwchradd, gan eu hannog i gofrestru i'r RRSA i wella addysg hawliau disgyblion. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o sut rydym yn annog **Cyfranogiad ac yn grymuso** plant i fynnu eu hawliau.

Yn ogystal, rydym wedi gofyn i UNICEF am gymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion uwchradd Caerdydd gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan a'u helpu gyda'u taith hawliau.

Yn olaf, rydym yn gwella ein cronfa ddata sy'n olrhain pa mor dda y mae ysgolion yn ei wneud gyda'r RRSA, sy'n ein helpu i'w cefnogi'n well. Rydym hefyd yn datblygu fersiwn y gall pawb ei gweld, felly gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau asesu'n hawdd sut mae ysgolion yn cefnogi hawliau plant. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyd i wneud ein gorau fel y rhai sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i gefnogi hawliau plant yng Nghaerdydd.

### Sicrhau bod gennym ddull teg o ymdrin ag addysg hawliau ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys disgyblion a addysgwyd heblaw yn yr ysgol (AHY)

Gan adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd wedi arwain at bron pob un o ysgolion arbennig Caerdydd yn cymryd camau breision gyda'r RRSA, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys disgyblion AHY, yn cael cyfle i ddysgu am eu hawliau. Mae'r ffordd rydym yn gweithio i wneud hyn yn cynnwys disgyblion ac athrawon o'n Huned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn siarad am waith rhagorol eu hysgol yn ein digwyddiad RRSA blynyddol, lle bydd staff o ddarparwyr addysg arbenigol yn bresennol.

## Effaith

"Ni yw disgyblion parchus, cyfrifol a gweithgar Ysgol Gynradd Trelái, ac rydym yn hynod falch bod ein hysgol wedi ennill gwobr Arian yng Ngwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA) UNICEF"


– darn o lythyr disgybl at y pennaeth

**Mae 88% o ddisgyblion oedran cynradd yn mynychu ysgol efydd/arian/aur**

"Fe wnaethon ni ddweud wrth bawb am ABCChD hawliau yn y Cynulliad fel bod pawb yn gwybod beth yw hawliau yn ogystal â pham maen nhw'n bwysig a sut maen nhw ganddynt bob amser"

– disgybl yn Ysgol Caerdydd

**O blith 128 o ysgolion a gynhelir, mae gennym:**




[dod o hyd i ysgol ar ein map]



# 2. LLE - CYNLLUNIO A DYLUNIO DINESIG

**Rydym am i Gaerdydd gael ei dylunio gyda phlant a'i siapio gan eu profiadau, gan gynnwys sut maen nhw'n symud o gwmpas y ddinas ac yn mwynhau mannau cyhoeddus.**

## Dull Gweitredu

### Sicrhau bod Uwch Arweinwyr yn gwybod sut i ymgorffori Dull Gweithredu Hawliau Plant i gynllunio a dylunio

Cymerodd Uwch Swyddogion Cynllunio ran yn Urban 95 Academy ar gyer Arweinyddiaeth, dan arweiniad Ysgol Economeg Llundain (LSE), i ddysgu a datblygu ffyrdd o wella dinasoedd i blant a phobl ifanc. Yna mae'r uwch swyddogion hyn, sy'n chwarae rhan yn y gwaith o gynllunio a dylunio ein dinas, yn gallu cymryd yr wybodaeth hon ac ymgorffori hawliau plant yn y gwaith y maent yn ei wneud, gan greu amgylcheddau lle rhoddir blaenoriaeth i anghenion plant. Fe wnaeth CAERDYDD DdB ariannu'r Ymgynghoriad Cymunedol ar Ansawdd Bywyd (YCABB) yn rhannol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i helpu i bontio'r bwlch rhwng ymgynghori statudol ac ymgysylltu ystyrlon.

### Datblygu model ymgysylltu cynaliadwy ar gyfer plant a phobl ifanc wrth gynllunio a dylunio

Cafodd timau CAERDYDD DdB a Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd (GIC) eu hyfforddi i ddefnyddio'r offeryn mapio digidol 'Maptionnaire', gan eu galluogi i gasglu barn plant am eu hardal leol. Buom hefyd yn gweithio'n agos gydag Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd i ddatblygu 'pecyn cymorth Cynllun Bro i blant', a gyflwynwyd i grwpiau ysgol. Rydym hefyd wedi hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill ar sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gall plant gymryd rhan yn effeithiol wrth lunio eu cymdogaethau a'u dinas yn y dyfodol.

### Mae sicrhau bod cynllunio a dylunio mannau cyhoeddus yn gynhwysol a heb wahaniaethu

Gwnaeth CAERDYDD DdB gomisiynu prosiect ymchwil dan arweiniad Prifysgol Caerdydd i ddeall yn well sut beth yw bod yn ferch yn ei harddegau yng Nghaerdydd, yn enwedig mewn parciau. Mae'r ymchwil hon yn helpu i sicrhau bod lleoedd yn cael eu dylunio i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rhai sy'n aml ar y cyrion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda gwahanol grwpiau i sicrhau bod cyfleoedd i blant chwarae yn cael eu cynnwys mewn dwy ddogfen gynllunio bwysig ar gyfer Caerdydd. Y gyntaf yw'r Cynllun Datblygu Lleol, a fydd yn siapio twf y ddinas dros y 15 mlynedd nesaf, a'r ail yw set newydd o ganllawiau sy'n canolbwyntio'n benodol ar chwarae. Gwnaethom gwblhau gwaith gydag arbenigwyr i archwilio sut y gallai cynlluniau'r ddinas gefnogi chwarae ac iechyd.

Yn dilyn hyn, rydym yn gweithio'n galed i **ymgorffori** chwarae yn y cynllun datblygu lleol i sicrhau ei fod yn tynnu sylw at ei bwysigrwydd wrth ddylunio Caerdydd yn y dyfodol. Am y tro cyntaf, bydd canllawiau penodol i helpu oedolion sy'n dylunio'r ddinas i fod yn fwy **atebol** trwy greu mwy o gyfleoedd i chwarae **i bawb**. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cwblhau yn 2025 a bydd yn helpu i **ymgorffori** hawliau plant yn nyfodol cynllunio trefol Caerdydd.

## Effaith



### Mae uwch swyddogion cynllunio

yng Nghyngor Caerdydd bellach yn fwy ymwybodol o sut i ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant yn eu gwaith ac yn cymryd camau gweithredol i gyflawni hyn.

### Bydd gan Chwarae Plant ei bolisi ei hun

yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 2021-2036, gan sicrhau y gall plant barhau i fynnu eu hawl i chwarae (Erthygl 31, CCUHP).

### Ers gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd a phartneriaid cymunedol


rydym wedi creu mwy o gyfleoedd ymgysylltu i blant a phobl ifanc, i ddweud wrthym sut mae'r gymuned leol yn diwallu eu hanghenion nawr ac yn y dyfodol (Mapio Cymunedol Llanisien; Cynllun Bro Grangetown; Proffiliau Cymunedol y Gwasanaeth Ieuenctid; Ymchwil gyda merched mewn parciau)

### Mae 600+ o blant a phobl ifanc

wedi gallu mynegi eu barn am eu hardal leol gan ddefnyddio 'pecyn cymorth Grangetown' a Maptionnaire. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Gyngor Caerdydd i'w hystyried ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

### Bydd y Cynllun Datblygu Lleol

nawr yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried cyfleoedd i chwarae wrth adeiladu datblygiadau newydd ar draws y ddinas.



# 3. CYFRANOGIAD A CHYLCH ADBORTH

**Rydym am sicrhau bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael ei defnyddio'n rheolaidd i helpu i lunio, gwella ac adolygu polisïau, gwasanaethau a rhaglenni..**

## Approach

### Gwella Cyfranogiad plant, yn enwedig y rhai dan 11 oed, gan sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc helpu i lunio gwasanaethau a gwneud gwahaniaeth.

Mae tîm CAERDYDD DdB wedi datblygu pecyn cymorth gweithredu cymdeithasol wedi'i ddylunio'n benodol i ymgysylltu â phlant dan 11 oed. Datblygwyd y pecyn cymorth fel dogfen ategol i Becyn Cymorth Eiriolaeth Ieuenctid RRSA UNICEF, gan ddarparu mwy o wybodaeth am sut y gellir defnyddio gweithredu cymdeithasol yng Nghymru.

Trwy Banel Dinasyddion Ifanc Caerdydd, gwahoddir plant i roi eu barn ar newidiadau sy'n cael eu hawgrymu gan yr awdurdod lleol ac yn mynnu eu **hawl i gael eu clywed** am faterion a allai effeithio arnynt.

Parhau i helpu i **rymuso plant**. Rydym wedi'u cefnogi ar nifer o brosiectau lle maent wedi gallu helpu i lunio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda'r canlynol:

Prifysgol Bryste, Prifysgol Caerdydd, Dechrau'n Deg, Plan UK, Cymorth i Ferched Cymru, Fforwm Ieuenctid Gwynedd, BBC Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd, Senedd Ieuenctid y DU, DebateMate, Accord yn Nantes, Theatr Ddeddfwriaethol a nifer o adrannau ar draws y cyngor.

### Nodi gwahaniaethu neu anghydraddoldeb sy'n rhwystro plant rhag mynnu eu hawliau.

Mae'n bwysig i ni edrych ar y cyd-destun ehangach wrth ddeall gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ar draws Caerdydd. Dyna pam rydyn ni'n dadansoddi llawer o ddata gan bartneriaid, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant yn y ddinas. Er enghraifft, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (RhYIY) nawr yn cipio data gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd ar bynciau amrywiol, gan gynnwys eu hawliau. Rydym hefyd yn derbyn data sy'n benodol i Gaerdydd gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru o'i harolwg 'Mater y Mis'. Mae hyn yn gofyn i'r plant roi eu barn ar faterion cyfredol fel diogelwch ar-lein.

Mae Caerdydd sy'n Dda i Blant hefyd wedi dechrau llunio llyfrgell ar-lein lle gall sefydliadau gyrchu a rhannu data am blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn helpu Cyngor Caerdydd a phartneriaid i wneud penderfyniadau gwell i blant ac i ymgysylltu dim ond pan fydd diffyg data.



## Rhoi adborth mwy hygyrch i blant am brosesau gwneud penderfyniadau

Yn aml mae gwybodaeth am benderfyniadau a newidiadau gan Gyngor Caerdydd yn dod o ffynonellau nad ydynt yn addas iawn i blant. Un ffordd o wella hyn oedd creu 'Media Reel Group' Cyngor Ieuenctid Caerdydd (CIC), gan droi gwybodaeth gan y Cyngor yn gynnwys ar-lein sy'n addas i blant megis riliau fideo.

Er mwyn sicrhau rhagor o **atebolrwydd** a thryloywder, gwnaethom ychwanegu tudalen awgrymiadau ac adborth ar wefan CIC, gan ei gwneud yn haws i bobl ifanc roi eu barn ar welliannau i CIC.

## Rhoi gwybod i blant sut mae eu barn wedi dylanwadu ar wneud penderfyniadaua thynnu sylw at ba bryd y dilynwyd dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant wrth wneud penderfyniadau.

Pan fo pobl ifanc yn cydweithio â sefydliadau neu gofynnwyd iddynt am eu barn gan sefydliadau, rydym yn sicrhau eu bod yn cael adborth am yr hyn sy'n digwydd oherwydd eu cyfraniad. Mae hyn yn elfen allweddol o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc i Gymru. Mae'r adborth hwn ar gael ar wefan CIC a gwefan CAERDYDD DdB.

## Effaith



"Roedd ymuno â CIC yn un o'r penderfyniadau gorau dwi erioed wedi'i wneud. Dwi'n gweld ei fod yn lle da i gwrdd â phobl a thrafod y problemau sy'n wynebu pobl ifanc ac i eraill gweld ein gweledigaethau. Mae pob person ifanc yn haeddu cael platfform sy'n cryfhau eu lleisiau, fel CIC."

- Person Ifanc, 14 oed

**Mae plant wedi rhoi**

**3000+ o oriau**

***yn mynychu 150 sesiwn***

*gan gynnwys ymweliadau dros nos â Thŷ'r Cyffredin a gefeilldref Caerdydd, Nantes.*
*Gallwch weld mwy o'r hyn y maent wedi bod yn ei wneud yma blog Newyddion Plant..*

Mae pobl ifanc yn eistedd ar 4 panel craffu a 5 bwrdd strategol o fewn Cyngor Caerdydd.

Cafodd pecyn cymorth gweithredu cymdeithasol ei greu a'i rannu ag ysgolion cynradd ledled Caerdydd ar ôl siarad â dros 400 o ddisgyblion o 7 ysgol.

Cymerodd dros 300 o ddisgyblion ran mewn prosiect mapio cymunedol yn Llanisien i gael dweud eu dweud am yr ardal leol.

## Cylch Adborth

- Mae plant yn cymryd rhan wrth greu adborth hygyrch a diddorol sy'n tynnu sylw at yr hyn sy'n digwydd yn y ddinas Riliau Adborth.
- Mae barn plant yn cael ei bwydo'n ôl iddynt yn rheolaidd ac yn gyson trwy arolwg Mater y Mis y Comisiynydd Plant – Gweler canlyniadau enghreifftiol May-MM-English-Primary.pptx.
- Rhoddir adborth i'r plant trwy wefan CIC a gwefan CAERDYDD DdB pan fo dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant wedi cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau mawr.

# 4.1 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhyweddymwneud â chydraddoldeb rhywedd

**Yng Nghaerdydd, rydym am i bob plentyn gael ei drin ag urddas a pharch ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.**

## Dull Gweithredu

Roedden ni eisiau dysgu sut beth yw bywyd i ferched yng Nghaerdydd, felly gwnaethon ni roi cynnig ar wahanol ffyrdd o sicrhau bod pob merch yn gallu rhannu eu straeon a'u syniadau.
Gwnaethom hyn trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau:

- Theatr Ddeddfwriaethol – lle roedd pobl ifanc yn actio senarios bywyd go iawn a gweithio gydag oedolion i ddod o hyd i atebion i'r problemau
- Rhaglen 'Criw Creu Newid Ifanc' Plan UK – Llwyddodd merched i arwain ar eu prosiectau eu hunain gan ganolbwyntio ar wneud Caerdydd yn lle tecach i bawb.
- DebateMate – Datblygodd pobl ifanc sgiliau dadlau yr oeddent yn eu defnyddio i drafod materion pwysig am rywedd.
- Diwrnod Tegwch Rhywedd gyda'r academydd blaenllaw, yr Athro EJ Reynolds – Diwrnod sydd wedi'i neilltuo i rymuso ac addysgu merched a menywod ifanc.
- Prosiect peilot 'Safon Mislif' – Gwobr i helpu ysgolion i hyrwyddo urddas mislif a'i gwneud yn haws i ddisgyblion gael mynediad i nwyddau mislif.
- Academi arweinyddiaeth 'Take Your Place' dan arweiniad Theatr y Gymanwlad. – Gweithio gyda phobl ifanc dosbarth gweithiol i ddatblygu'r gallu i gael effaith, cymryd camau gweithredu a gwybod eu hawliau.

Roedd yr holl weithgareddau hyn yn ymwneud â sicrhau bod merched yng Nghaerdydd yn gallu **cyfranogi** a defnyddio eu llais i helpu i lunio'r ddinas i fod yn lle gwell i bawb.

**Os hoffech chi glywed am farn a syniadau merched yng Nghaerdydd, gallwch ddarllen ein hadroddiad yma**

### Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)

IAr 30 Mawrth 2023 cytunodd y Cyngor i ddatgan Caerdydd yn 'Ddinas dros CEDAW'. CEDAW yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
Mewn ymateb mae'r Cyngor wedi bwrw ymlaen â rhaglen waith i ddatblygu ymrwymiad y Cyngor i weithredu yn unol ag egwyddorion CEDAW. Mae hyn wedi cynnwys nifer o linynnau gweithgaredd:

- Hyrwyddo a dathlu CEDAW
  - Mae gwefan y Cyngor wedi'i diweddaru i ychwanegu tudalen benodol sy'n darparu gwybodaeth am CEDAW a'r ymrwymiadau a wnaed yn y cynnig Dileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (caerdydd.gov.uk)
  - Mae Cymorth Cynnar Caerdydd wedi dylunio ffolder tystysgrif geni sy'n dathlu Caerdydd fel Dinas dros CEDAW ac fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF gyntaf y DU.
- Ymgorffori CEDAW yn y Fframwaith Polisi
  - Mae'r ymrwymiadau a wnaed yn y cynnig CEDAW wedi'u hymgorffori yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd y Cyngor ar gyfer 2024-28. Bydd cynnydd yn erbyn y Strategaeth hon yn cael ei gofnodi drwy adroddiad blynyddol a fydd yn cynnwys diweddariad naratif yn erbyn pob un o'r ymrwymiadau.

- Mae ymrwymiadau o'r cynnig sy'n ymwneud yn benodol â merched a menywod ifanc hefyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cynaliadwyedd Dinas sy'n Dda i Blant y mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariadau amdano. Mae CEDAW wedi'i ymgorffori yn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2023-28 gyda sawl ymrwymiad wedi'u hymgorffori yn y strategaeth.

- Adolygu hyfforddiant i gynnwys CEDAW
  - Yn dilyn adolygiad o'r gyfres o gyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb a gynigir o fewn y Cyngor, mae modiwl e-Ddysgu newydd am 'Gydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn' wedi cael ei gyflwyno ar draws y Cyngor. Mae'r modiwl hyfforddi hwn yn orfodol i'r holl staff. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys adran am ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth - un o dair elfen Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus - sy'n tynnu sylw penodol at CEDAW.

## Effaith

Mae grŵp o randdeiliaid o bob rhan o'r Cyngor a phartneriaid ehangach, dan arweiniad y Cynghorydd Jennifer Burke o'r Cabinet, wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar wneud y newidiadau a awgrymir yn yr adroddiad am rywedd. Byddant hefyd yn parhau i siarad â merched a menywod ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Rydym wedi ymuno â Phrifysgol Caerdydd i wneud astudiaeth am sut brofiad yw hi i ferched ym mharciau Caerdydd. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut i wneud parciau'n fwy diogel ac yn fwy pleserus i bawb.

Mae 1 ysgol wedi cael rhagoriaeth, ac mae 3 ysgol arall wedi cael teilyngdod o ran y Safon Mislif

***"Mae ein Llysgennad Mislif yn gyfeillgar ac yn hawdd siarad â hi a gallwn gael nwyddau mislif yn y toiledau ac oddi wrth ein hathrawon" - disgybl ysgol gynradd***

Trwy'r Cynllun 'Criw Creu Newid Ifanc', gwnaethom ariannu 8 prosiect dan arweiniad pobl ifanc. Darllenwch fwy am y gwaith anhygoel a wnaed yma.

***'Mae'r prosiect hwn wedi dangos i ni fod unrhyw beth yn bosibl a gobeithio y bydd y gymdeithas yn dod yn fan lle mae pobl niwrowahanol fel ni yn cael eu derbyn a'u cefnogi'*** - Dyfyniad gan berson ifanc sy'n ymwneud â'r prosiect

Mae adnoddau am sut i ddiogelu pobl ifanc rhag camfanteisio wedi cael eu rhoi mewn lleoliad canolog ac maen nhw'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gan dîm SAFE.



Rhoi cyngor a gwybodaeth trwy'r Hybiau a'r Llyfrgelloedd cymunedol ledled Caerdydd i helpu menywod a merched i gael mynediad i'r holl fuddion y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys llyfryn hawliau.

Mae timau'r Cyngor a phartneriaid allanol yn cydweithio i ddatblygu adnoddau i bobl ifanc am bynciau pwysig megis VAWDASV, casineb at fenywod ac aflonyddu rhywiol cyhoeddus. .

Sicrhau bod mwy o Fannau Diogel ledled Caerdydd, gan gynnwys menywod a merched yn y broses o'u creu.

# 4.2 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## Mynd i'r afael ag anghymesuredd yn y system cyfiawnder ieuenctid

### Dull Gweithredu

Rydym wedi ymrwymo i ddeall a mynd i'r afael ag unrhyw Anghymesuredd o fewn System Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd. Gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Gwahaniaethau ar sail Ethnigrwydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, rydym wedi dadansoddi cyfansoddiad pobl ifanc yn ein gwasanaeth. Mae'r data yn dangos mai bechgyn gwyn Cymreig yw'r grŵp mwyaf sy'n dod i mewn i'r system, gan adlewyrchu demograffeg ehangach poblogaeth ieuenctid Caerdydd. Fodd bynnag, bu cynnydd bach yn nifer y bechgyn o dras gymysg sy'n dod i mewn i'r system. Er mwyn deall eu profiadau'n well, rydym yn cynnal archwiliad gan ganolbwyntio ar y bobl ifanc hyn.


Rydym yn monitro ethnigrwydd a chanlyniadau'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw yn barhaus trwy adroddiadau chwarterol. Mae hyn yn ein helpu i olrhain unrhyw newidiadau a sicrhau bod ein gwasanaethau'n deg. Rydym hefyd yn casglu adborth yn uniongyrchol gan bobl ifanc sy'n ymwneud â'n rhaglenni – mae eu mewnwelediad yn helpu i lunio prosiectau i'r dyfodol ac yn cael eu rhannu â'n Bwrdd Rheoli a rhanddeiliaid eraill i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Gyda'n Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid newydd yn derbyn adborth cadarnhaol, rydym wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae ein cynllun gweithredu'n cynnwys ffocws cryf ar wella sicrhau ansawdd a hyrwyddo amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rheolaidd ac adolygiadau o achosion i nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, rhywedd neu fath o dramgwydd.

Mae ein staff wedi'u hyfforddi mewn cymhwysedd amrywiaeth a diwylliannol, ac rydym yn sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym hefyd yn recriwtio gwirfoddolwyr ar draws Caerdydd i gefnogi pobl ifanc yn y system gyfiawnder, gan gynnwys oedolion a mentoriaid priodol o gefndiroedd amrywiol.

Trwy adolygu ein strategaethau yn rheolaidd, cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a gwella ein harferion yn barhaus, rydym yn credu y gallwn sicrhau bod ein system cyfiawnder ieuenctid yn **deg** ac yn gefnogol i **bob person ifanc** yng Nghaerdydd.

### Effaith




Mae monitro ethnigrwydd a chanlyniadau yn rheolaidd wedi dod yn arferol, ac mae ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc, megis trwy'r 'Grŵp Merched', wedi darparu adborth gwerthfawr sydd wedi llywio trafodaethau lleol a chenedlaethol.

Mae datblygu Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a Chynllun Gweithredu Gwasanaeth newydd, ynghyd ag arferion sicrhau ansawdd cyson, yn sicrhau bod amrywiaeth ac anghymesuredd yn cael sylw rheolaidd.

# 4.3 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## Mynd i'r afael â gwahaniaethu: ymddygiad a gwaharddiadau mewn ysgolionr


## Dull Gweithredu

Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom fonitro data gwaharddiad yn ofalus a nodi patrymau, megis gostyngiad bach yn nifer y gwaharddiadau mewn ysgolion uwchradd ond cynnydd bach mewn ysgolion cynradd. Er gwaethaf llai o waharddiadau cyfnod penodol yn gyffredinol, mae nifer y diwrnodau dysgu sy'n cael eu colli yn parhau i fod yn bryder, yn enwedig i fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 3.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, gwnaethom sefydlu grŵp o reolwyr o bob rhan o'r gwasanaeth addysg i edrych ar ganllawiau newydd ar gyfer gwaharddiadau a Rhaglenni Cymorth Bugeiliol (RhCBau) Mae'r fframwaith hwn bellach yn cael ei dreialu mewn pum ysgol uwchradd i sicrhau dull mwy cyson ac effeithiol o reoli gwaharddiadau.

Mae ymgorffori lleisiau pobl ifanc wedi bod yn hanfodol i'n strategaeth. Gwnaethom ddefnyddio adborth gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ac arolygon rhanddeiliaid i sicrhau bod profiadau plant yn llywio ein cynlluniau gweithredu. Mae hyn wedi galluogi ysgolion i dargedu cymorth lle mae ei angen fwyaf. Roeddem hefyd yn blaenoriaethu hyfforddiant i benaethiaid a llywodraethwyr, gan eu helpu i ddeall sut i reoli gwaharddiadau yn deg ac atal arferion gwahaniaethol. Mae'r hyfforddiant hwn wedi meithrin diwylliant o arferion gorau a rennir ac wedi cynyddu atebolrwydd ar draws ysgolion.

Mae ein cymorth cynhwysfawr yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'r dull 'Tîm o amgylch yr Ysgol', ynghyd â rhaglenni hyfforddi fel Talkabout, wedi'i weithredu i helpu staff i fabwysiadu'r Dull Ysgol Gyfan, gan wella eu gallu i gefnogi myfyrwyr yn effeithiol.



## Effaith

Mae'r ymdrechion hyn wedi arwain at newidiadau ystyrlon yn y ffordd y mae ysgolion yn rheoli gwaharddiadau ac yn cefnogi ymddygiad myfyrwyr. Mae'r canllawiau newydd ar gyfer gwaharddiadau a RhCBau wedi darparu fframwaith cryfach, gan roi canllawiau cliriach i ysgolion i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed.

Trwy flaenoriaethu lleisiau pobl ifanc, mae ysgolion bellach mewn sefyllfa well i gynnig ymyriadau targedig sy'n diwallu anghenion penodol eu myfyrwyr. Mae hyn wedi arwain at amgylchedd ysgol mwy cynhwysol ac ymatebol.

Mae hyfforddiant i arweinwyr ysgolion wedi gwella eu gallu i ymdrin â gwaharddiadau yn deg, gan leihau gwahaniaethau a sicrhau arferion mwy cyson ar draws y ddinas. O ganlyniad, rydym wedi gweld llai o waharddiadau, ymgysylltu'n well â dysgu a gwell canlyniadau i fyfyrwyr sy'n agored i niwed.

Mae'r cymorth cynhwysfawr a ddarparwyd trwy fentrau fel y 'Tîm o amgylch yr Ysgol' wedi arwain at allu cryfach i gefnogi myfyrwyr, gan gyfrannu at effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad cyffredinol. Mae Partneriaid Gwella wedi chwarae rhan allweddol wrth helpu ysgolion i integreiddio lles yn eu prosesau, gan arwain at gymorth ac ymyrraeth fwy effeithiol lle nodwyd gwaharddiadau uchel.

Yn gyffredinol, mae ein dull gweithredu wedi meithrin amgylchedd ysgol tecach a mwy cefnogol, lle mae pob plentyn yn cael cyfle i lwyddo.



# 4.4 CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

## Datblygu polisi trafnidiaeth gyhoeddus sy'n deg i blant

### Dull Gweithredu

Yn 2025, bydd trafodaeth fawr am sut i wneud i ffyrdd a system drafnidiaeth Caerdydd weithio'n well gyda'i gilydd. Bydd hyn yn cynnwys syniadau fel Cynllun Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd, sy'n ffordd o helpu i reoli traffig a gwella trafnidiaeth.

Rydym yn gwybod ei fod yn bwysig i blant a phobl ifanc (PaPhI) i ddweud eu dweud am sut mae'r ddinas yn cael ei rhedeg. Felly, rydym wedi dechrau siarad am sut i sicrhau eu bod yn gallu rhannu eu syniadau pan ddaw'r amser.

Gofynnon ni i aelodau Cyngor Ieuenctid Caerdydd ymuno â gweithdy lle buom yn siarad am y ffyrdd gorau o annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y drafodaeth bwysig hon. Bydd eu syniadau'n ein helpu i gynllunio sut i gynnwys pobl ifanc pan fydd yr ymgynghoriad cyhoeddus mawr yn cael ei gynnal yn 2025.




### Effaith

Mae cynllunio ar gyfer yr ymgynghoriad â phlant y flwyddyn nesaf yn cael ei lywio gan waith sy'n cael ei wneud gyda grŵp ffocws sy'n cael ei gynnal gydag aelodau Cyngor Ieuenctid Caerdydd i ddatblygu set o syniadau a rheolau i weithio iddynt wrth gynnal yr ymgynghoriad.

# DEILLIANNAU AROLYGU ALLWEDDOL

## Addysg

- Gwnaed yr adroddiad arolygu diwethaf gan Estyn ar gyfer Cyngor Caerdydd yn 2022 ac nid yw'r dyddiad ar gyfer yr arolygiad nesaf wedi'i bennu.
- Gellir gweld yr holl arolygiadau ysgol yma Adroddiadau arolygu diweddaraf - Estyn (llyw.cymru), yna hidlo fesul awdurdod lleol.

## Cyfiawnder Ieuenctid

- Gellir gweld yr adroddiad cyfiawnder ieuenctid diweddaraf yma Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghaerdydd (justiceinspectorates.gov.uk)

## Amddiffyn Plant

- Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Caerdydd 2024 (arolygiaethgofal.cymru). Mae'r adroddiad hwn yn nodi meysydd cryfder a meysydd i'w gwella.



# NEW CONNECTIONS

Mae Cyfranogiad yn cael ei gydnabod fel cryfder yng Nghaerdydd, gyda chymorth staff tra hyfforddedig a diwylliant o barchu hawliau plant. Mae nifer o bartneriaid ledled y DU, gan gynnwys Harborough, Gwynedd, Taunton ac, yn rhyngwladol, Sarawak ym Malaysia, wedi gofyn am gymorth a chyngor ar sefydlu strwythur Cyfranogiad i bobl ifanc.

Croesawodd Cyngor Ieuenctid Caerdydd ddirprwyaethau o Derry a Strabane, a Gwynedd

Mae Caerdydd sy'n Dda i Blant wedi cynnal sawl cyfarfod i gefnogi a chynghori cymunedau ledled y DU sy'n ymwneud â Rhaglen Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF UK yn y DU neu'n ystyried gweithio mewn partneriaeth â hi.

Croesawodd Cyngor Caerdydd westeion o efeilldrefi rhyngwladol, gan gynnwys Stuttgart lle gwnaethom rannu ymarfer ar raglen dinasoedd sy'n dda i blant UNICEF UK.

Cynhaliwyd gweithdy dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant gan Caerdydd sy'n Dda i Blant mewn cynhadledd genedlaethol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Mae dull arloesol Caerdydd o ymdrin â'r RRSA wedi dal sylw cynghorau eraill y DU, megis Manceinion, Luton a Lambeth. Maen nhw wedi gofyn i ni am help a chyngor, gan arwain at waith tîm sy'n helpu pawb i aros  yn atebol a gwneud eu gorau i gefnogi hawliau plant.




# CRYNODEB

Wrth i ni fyfyrio ar y cynnydd a wnaed eleni, mae'n amlwg bod Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig iawn i ymgorffori hawliau plant ym mhob agwedd ar ein gwaith. O wella Cyfranogiad a sicrhau bod lleisiau plant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo tegwch mewn gwasanaethau fel addysg, cyfiawnder ieuenctid a thrafnidiaeth gyhoeddus, rydym yn parhau i gymryd camau ystyrlon tuag at greu dinas sy'n well i blant. Mae'r heriau rydym wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn hefyd yn ganllaw ar gyfer ymdrechion yn y dyfodol, gan arwain ein gwaith ar flaenoriaethau allweddol megis mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran gwaharddiadau ysgolion a gwella Cyfranogiad pobl ifanc. Gyda'r nodau clir hyn a chymorth ein partneriaid, rydym yn benderfynol o fwrw ymlaen â'r gwaith a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gan sicrhau bod hawliau plant nid yn unig yn ddyhead ond yn realiti bywyd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd.

# Y CAMAU NESAF

Wrth edrych ymlaen, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i adeiladu ar drefniadau llywodraethu cryf y rhaglen Dinas sy'n Dda i Blant, gan sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn. Trwy barhau i gryfhau partneriaethau ar draws y ddinas, ein nod yw creu effaith barhaol a sbarduno newid cadarnhaol dros amser. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn hefyd yn achub ar bob cyfle i ddathlu llwyddiannau rhyfeddol plant a phobl ifanc Caerdydd, gan gydnabod eu cyfraniadau at lunio dinas sy'n gweithio i bawb.



# RHESTR TERMAU

## (Rhestr o eiriau pwysig a'u hystyron)

AEHP – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Aelodau etholedig – Aelodau o'r Cyngor/Senedd sy'n cael eu hethol gan breswylwyr.

Anghymesuredd – Pan nad yw pethau'n gytbwys neu'n deg.

Ar y cyrion – Cael eich gwthio i'r ochr neu gael eich gadael allan.

Atebolrwydd – Pan fo person neu grŵp o bobl yn cymryd cyfrifoldeb am gam gweithredu.

Awdurdod lleol – Corff o fewn y llywodraeth sy'n darparu gwasanaethau ym mhob ardal leol.

Craffu – Rôl craffu yw edrych ar faterion sy'n bwysig i breswylwyr Caerdydd, dwyn penderfyniadau a wneir gan y Cyngor i gyfrif a gyrru gwelliannau i wasanaethau a pherfformiad.

Cydraddoldeb – Pan fo pawb yn cael yr un pethau.

Cydymffurfio – Yn golygu gwneud yr hyn yr ydych i fod i'w wneud neu ddilyn y rheolau.

Cyfranogiad – Y weithred o gymryd rhan mewn rhywbeth/bod yn ymwneud â rhywbeth.

Cynaliadwy – Pan fo prosiect yn gallu parhau i redeg oherwydd bod yr adnoddau ar gael.

Cynllun gweithredu – Cam gweithredu a awgrymwyd neu a gynlluniwyd yn flaenorol.

Dangosfwrdd cydymffurfio – Yn dangos i chi pwy sy'n gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud neu pwy sy'n dilyn y rheolau.

Data – Ffeithiau ac ystadegau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd.

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant – Pan fo hawliau plant yn cael eu blaenoriaethu yn y gwaith y mae sefydliadau'n ei wneud.

Etholaethau – Mae etholaethau'n ardaloedd daearyddol penodol o fewn gwlad neu ranbarth sydd â'u poblogaeth eu hunain o bleidleiswyr.

Grwpiau Gweithredol – Tîm yw grŵp gweithredol yng nghyd-destun prosiect sy'n ymdrin â'r tasgau i gadw'r prosiect i symud ymlaen.

Gwahaniaethu – Trin rhywun yn annheg neu'n wahanol dim ond oherwydd pwy ydyn nhw neu sut olwg sydd arnynt.

Gwasanaethau cyhoeddus – Gwasanaeth sydd â'r diben o helpu'r cyhoedd ac sy'n cael ei ddarparu gan y llywodraeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ysbytai, ysgolion yr heddlu ac ati.

Gweithredu cymdeithasol – Pan fo pobl yn dod at ei gilydd i helpu i wella eu bywydau a gwella materion sy'n bwysig yn eu cymunedau.

Nodweddion gwarchodedig – Agweddau ar bobl sy'n eu gwneud nhw pwy ydyn nhw, ac mae'r pethau hyn yn cael eu diogelu gan gyfreithiau i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft, eich oedran, eich rhywedd, eich hil, eich crefydd neu os oes gennych anabledd.

Pwrpasol – Rhywbeth wedi'i wneud yn arbennig i rywun.

Sicrhau ansawdd – Pan fo rhywbeth yn cael ei wirio i wneud yn siŵr ei fod yn iawn ac o safon dda.

Tegwch – Pan fo pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt er mwyn iddo fod yn deg – nid o reidrwydd yr un pethau.

Ymgynghoriad – Pan fyddwch yn cwrdd â pherson neu grŵp o bobl sy'n arbenigwyr mewn pwnc penodol.